

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

London Women's Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2025

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o London Women's Clinic ar 27 Mawrth 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol sy'n rheoleiddio clinigau ffrwythlondeb a phrosiectau sy'n ymwneud ag ymchwilio i embryonau dynol yn y DU. Mae gwaith yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn wahanol i waith AGIC ac mae'n ymwneud â thrwyddedu, arolygiadau a gosod safonau. Ceir gwybodaeth am [yr hyn y mae'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn ei wneud, gan gynnwys y ffordd y mae'n rheoleiddio a sut i gael gafael ar ei adroddiadau arolygu](#) ar [wefan yr Awdurdod](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd London Women's Clinic yn ymrwymedig i ddarparu triniaethau i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roedd y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion ac ar ddiogelu hawliau'r cleifion yn ystod eu hymweliad â'r clinig. Roedd yr amgylchedd hefyd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael yn y clinig er mwyn i'r cleifion ddefnyddio eu dewis iaith. Nodwyd mai Saesneg oedd iaith yr arwyddion a'r llenyddiaeth yn y clinig. Gan fod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu rhagor o wybodaeth yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Gwelsom Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y defnydd o hebryngwyr. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn hon wedi cael ei hadolygu yn unol â'r dyddiad a oedd wedi'i nodi ar y ddogfen.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r clinigwyr yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd y staff yn ymrwymedig i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o ansawdd ac roedd adborth y cleifion yn adlewyrchu hyn gyda phob claf yn nodi bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn'.

Roedd prosesau da ar waith i alluogi'r cleifion i fynegi eu barn am y gofal roeddent wedi'i gael yn y clinig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu'r Weithdrefn Weithredu Safonol at ddefnydd hebryngwyr.
- Darparu rhagor o wybodaeth fel arwyddion yn Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion a'r ymwelwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Amgylchedd glân a chyfforddus a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i'r cleifion fel y gallent wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus.

Roedd y broses o reoli risgiau amgylcheddol a chlinigol yn cynnwys asesiadau priodol a mesurau lliniaru.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y clinig yn lân a bod mesurau rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol.

Gwelsom fod prosesau rheoli meddyginiaethau diogel a phriodol ar waith.

Roedd y cofnodion clinigol yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roeddent yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd system cofnodion electronig yn cael ei defnyddio yn y clinig ac roedd y system rheoli cofnodion yn galluogi staff awdurdodedig i weld cofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau rheoli risg da ar waith yn y clinig
- Roedd y clinig yn lân ac roedd prosesau atal a rheoli heintiau priodol yn cael eu dilyn
- Roedd y cofnodion meddygol yn drefnus ac yn gyfredol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel i'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn y clinig, ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Nodwyd gennym fod y rhain yn drefnus ac yn hawdd eu deall.

Roedd y system adnoddau dynol yn galluogi'r staff i gofnodi cofnodion hyfforddiant, rheoli'r staff a sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau priodol yn cael eu storio.

Roedd polisi cwynion cyfredol ar waith yn y clinig. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel Arolygiaeth Iechyd Cymru.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi'n briodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r polisi cwynion er mwyn sicrhau ei fod yn cyfeirio'n gywir at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd proses lywodraethu cadarn ar waith
- Cydymffurfiaeth briodol â hyfforddiant gorfodol
- Polisiâu a gweithdrefnau cyfredol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn London Women's Clinic ar gyfer yr arolygiad ym mis Mawrth 2025.

Cafwyd cyfanswm o 30 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 30 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r tîm o staff yng Nghaerdydd yn hyfryd ac mae wedi bod yn bleser cael cymorth gan y staff dros y naw mis diwethaf. Byddem yn argymhell y clinig hwn yn hytrach na'r un ym Mryste gan fod y gofal yn canolbwyntio llawer mwy ar yr unigolyn, ac mae'r staff yn gofalu amdanoch chi'n dda.”

“Bob amser yn groesawgar ac mae'n teimlo'n lân, yn agored ac yn lle braf i fod ynddo, ac ni all pob aelod o'r staff wneud digon drosoch chi! Rhagorol!”

“Mae pawb yn hyfryd. Cafodd fy machgen bach ei eni diolch i'r clinig hwn a byddaf bob amser yn ddiolchgar iawn am ei help.”

“Rwy'n ymddiried yn London Women's Clinic ac yn gwerthfawrogi ei fod wedi ein helpu i fagu teulu.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd taflenni hybu iechyd a oedd yn briodol i'r lleoliad ar gael yn ardal y dderbynfa. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y staff yn trafod iechyd cyffredinol yn ystod ymgynghoriadau ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar roi'r gorau i smygu a bwyta'n iach pan fo angen.

Urddas a pharch

Nodwyd bod y clinig yn olau, yn agored ac yn lân. Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr gwaelod ac roedd angen cerdded i fyny set o risiau i'w gyrraedd. Roedd angen i'r cleifion ag anawsterau symudedd ddefnyddio'r mynediad yng nghefn yr adeilad a oedd yr un lefel â'r stryd.

Roedd drysau y gellid eu cloi yn yr ystafelloedd clinigol er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion ddadwisgo. Dywedwyd wrthym fod gorchuddion urddas yn cael eu defnyddio i orchuddio cleifion yn ystod archwiliadau a thriniaethau personol.

Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd drws ar bob ystafell ymgynghori a fyddai'n cael ei gau pan fyddai'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio ac roedd y bleinds ar y ffenestri ar gau. Roedd ardal y dderbynfa a'r ardal aros yn y clinig yn fawr, a dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiad ymlaen llaw fyddai'n eistedd yn yr ystafell aros ar unrhyw adeg. Pe bai angen, byddai'r cleifion yn cael eu harwain i ystafell ymgynghori nad yw'n cael ei defnyddio i gynnal unrhyw sgysiau cyfrinachol. Nodwyd fod y staff yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Gwelsom y staff yn trin y cleifion mewn modd caredig a chwrtais. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig.

Defnyddiwyd hebryngwyr a gwelsom Weithdrefn Weithredu Safonol a oedd yn cynnwys manylion y broses. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn hon wedi cael ei hadolygu yn unol â'r dyddiad a oedd wedi'i nodi ar y ddogfen.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y defnydd o hebryngwyr yn cael ei hadolygu.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod y broses gydsynio yn briodol a'i bod yn dilyn y canllawiau cenedlaethol a nodir gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a'r Canllawiau Cynenedigol Cenedlaethol. Roedd polisi cydsynio cyfredol ar waith yn y clinig.

Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cael ei gasglu gan y cleifion drwy system trefnu apwyntiadau ar-lein ac roedd y staff yn gofyn i'r cleifion gydsynio eto yn ystod ymgynghoriad â meddyg ymgynghorol. Gwelsom fod y cleifion yn cael digon o amser a gwybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus. At hynny, roedd galluedd meddyliol y cleifion yn cael ei asesu yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol i sicrhau bod gan y cleifion y galluedd i wneud penderfyniadau gwybodus ac i roi cydsyniad.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd. Roedd y cleifion hefyd yn cytuno bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Wrth edrych ar y cofnodion meddygol, gwelsom fod y cleifion yn cael cyfle i ddefnyddio eu dewis iaith. Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar gael iddynt pe bai angen. Byddai unrhyw gleifion ag anghenion ychwanegol yn cael eu nodi ar y system cofnodion meddygol.

Roedd yr arwyddion yn y clinig yn uniaith Saesneg, a dywedwyd wrthym y gellir eu darparu yn Gymraeg os oes angen. Roedd y rhan fwyaf o ohebiaeth yn cael ei hanfon at gleifion drwy e-bost. Dywedwyd wrthym y gellir darparu dogfennau mewn print bras ar gais.

Dim ond yn Saesneg roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion ar y cyfan ac nid oedd ar gael yn Gymraeg. Ni ddywedodd unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, gan fod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu rhagor o wybodaeth yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cleifion yn cael gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth ar bob cam o'r driniaeth. Roedd gwefan y clinig yn cynnwys gwybodaeth am y materion cyffredinol y gallai'r cleifion eu hwynebu a'r ffordd i reoli'r materion hyn. At hynny, roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am y gofal a'r driniaeth a ddarperir, gan gynnwys ôl-ofal. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi gorfod aros llai na 15 munud am eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym mai dim ond os byddai unrhyw oedi o ran cael triniaeth y byddai'r cleifion yn cael gwybod amdano.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig yn hygyrch iawn i gleifion ag anawsterau symudedd neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd drysau llydan a thoiled hygyrch. Nododd y staff y byddent yn helpu'r cleifion lle bo angen er mwyn sicrhau y gallent ddod i'r clinig. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Roedd gan y clinig bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith hefyd.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r clinig a'u bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallai'r cleifion roi adborth ar lafar neu yn ysgrifenedig. Rhoddwyd ffurflenni arolwg i'r cleifion. Adroddwyd ar ganlyniadau'r rhain bob chwarter ac roeddent yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol.

Gwelsom fod cod QR yn cael ei arddangos yn yr ardaloedd i gleifion i'w galluogi i roi adborth yn ddigidol. Roedd y clinig yn cofnodi'r holl sylwadau a gafwyd ac yn gwneud newidiadau lle y bo'n bosibl. Dywedwyd wrthym fod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan.

Esboniodd y staff nad oeddent wedi cael unrhyw adborth negyddol ond y byddai'r clinig yn ymchwilio ymhellach i unrhyw sylw negyddol a fyddai'n dod i law yn ystod cyfarfodydd llywodraethu.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio 'Salve App' i gyfathrebu â'r cleifion. Gall y cleifion adael neges ar yr ap a bydd nyrs yn eu ffonio i ymdrin â'r ymholiad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd London Women's Clinic wedi'i leoli ar dri llawr ac roedd lifft er mwyn i bobl â phroblemau symudedd gyrraedd y clinig yn hawdd. Roedd y fynedfa yn cael ei rheoli gan system intercom a dim ond pobl oedd wedi trefnu apwyntiad oedd yn cael mynd i mewn i'r clinig.

Gofynnwyd i'r cleifion â phroblemau symudedd ddefnyddio'r drws cefn gan fod stepiau yn arwain at ddrws ffrynt y clinig.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd amgylchedd y clinig mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Gwelsom asesiad risg iechyd a Diogelwch a oedd wedi'i adolygu'n ddiweddar.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur o'r farn bod digon o seddi yn yr ardal aros.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer delio ag argyfwng meddygol, gan gynnwys adfywio, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio Cardiopwlmonaidd a gwelsom eu bod yn ddigonol ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar brosesau diogelwch tân y clinig a chawsom sicrwydd bod y rheolwr cofrestredig wedi cymryd y rhagofalon cywir os bydd tân.

Roedd gan y clinig nifer o bolisiau cyfredol ar waith a oedd ar gael i'r staff ar-lein.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod gan y clinig brosesau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff ei ddefnyddio a'u bod yn newid y cyfarpar yn briodol rhwng cleifion. Roedd gorsafoedd golchi dwylo ar gael ym mhob ystafell ymgynghori ac ystafell glinig.

Gwelwyd bod yr amgylchedd mewn cyflwr da a bod y dodrefn yn lân ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth o'r amserlenni glanhau a'r archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn bresennol.

Roedd prosesau dihaolgi priodol ar waith ar gyfer y cyfarpar aml dro. Roedd biniau offer miniog ar gael ac yn cael eu storio'n briodol. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith gyda chwmni casglu gwastraff.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau digonol ar waith a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau cyfredol ar waith a oedd ar gael i'r staff. Mae system briodol ar waith ar gyfer archwiliadau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys gweithredu ar y canlyniadau.

Roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod y lleoliad yn 'lân iawn' (30/30) ac roedd pob un a atebodd yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn (29/29).

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y clinig yn defnyddio fferyllfa ar-lein i gyflenwi meddyginiaeth ar gais. Nodwyd bod yr holl ddosbarthiadau o feddyginiaethau wedi'u cofnodi'n gywir.

Gwelsom dystiolaeth o arferion rhagorol mewn perthynas â storio, cyflenwi, llywodraethu a rhoi meddyginiaethau. Roedd y cofnodion meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn gywir.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau y gellid eu cloi yn yr ystafell drin.

Gwelsom fod polisi meddyginiaethau cyfredol ar waith a oedd ar gael i bob aelod o'r staff.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisi diogelu cyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a'u manylion cyswllt perthnasol. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithredu fel yr arweinydd diogelu dynodedig a dywedodd y staff y byddent yn cael gwybod am unrhyw bryderon diogelu er mwyn cydlynu unrhyw gamau gweithredu gofynnol.

Gwelsom y cofnodion hyfforddiant a ddangosodd gydymffurfiaeth o 100%.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y clinig y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion ac roedd y rhain wedi'u lleoli yn yr amgylchedd cywir i'w defnyddio. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw mewn modd amserol, a oedd yn cynnwys proses ar gyfer rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom dystiolaeth o'r gwaith cynnal a chadw hwn ac roedd yn dangos ei fod wedi'i gyflawni mewn modd amserol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

O siarad â'r staff yn y lleoliad, gan gynnwys uwch aelodau o'r staff, cawsom wybod mai ychydig o gleifion sydd ag anghenion ychwanegol oedd yn mynychu eu clinig. Dywedwyd wrthym eu bod yn osgoi defnyddio aelodau o deuluoedd i gyfieithu oherwydd materion diogelu. Gallai'r clinig ddefnyddio Language Line i gael gwasanaethau cyfieithu.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn gweithio yn y clinig ac roeddent o'r farn bod y gofal a ddarperir yn amserol a bod y cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a bod polisïau a gweithdrefnau clinigol ar gael.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Gwelsom fod ymgynghoriadau o bell yn cael eu cynnal yn ddiogel drwy ddefnyddio system ar-lein a oedd yn cynnwys wal dân ac mai dim ond y clinigydd â chyfrifoldeb am yr achos oedd yn gallu defnyddio'r system drwy ddefnyddio rhifau awdurdodi diogel.

Rheoli cofnodion

Edrychwyd ar hapsampl o gofnodion ar gyfer pump claf. Gwelsom fod y cofnodion yn drefnus, yn glir, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn hawdd eu deall. Roedd system cofnodion electronig yn cael ei defnyddio yn y clinig ac roedd y system rheoli cofnodion yn galluogi staff awdurdodedig i weld cofnodion.

Roedd y cofnodion yn dangos bod taflenni gwybodaeth yn cael eu rhoi i'r cleifion am eu cyflwr, y broses o ymchwilio iddo a'r opsiynau ar gyfer ei reoli er mwyn iddynt ddeall eu hiechyd a'u salwch eu hunain.

Gwnaethom nodi bod y clinig yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ac y gall olrhain cleifion o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at ddiwedd eu triniaeth. Gall y clinigwyr gyfeirio cleifion at wasanaethau eraill o fewn y GIG a'r sector Gofal Iechyd Annibynnol. Nodwyd bod y system cadw cofnodion clinigol a ddefnyddir yn dda.

O siarad â'r meddyg ymgynghorol a oedd yn trin y cleifion, cawsom wybod fod cleifion yn cael cynnig hebryngwyr ar bob achlysur.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Rheolwr cofrestredig y clinig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd. Roedd strwythur rheoli clir ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith er mwyn sicrhau ffocws penodol ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol mewn perthynas â'r clinig ar gael yn ardal aros y clinig. Roedd y ddau yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd polisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith a oedd yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roedd y rhain ar gael i'r staff gael gafael arnynt.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal yn y clinig yng Nghaerdydd a gyda changhennau eraill o'r sefydliad. Nodwyd bod cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn cael eu cynnal bob pedair i chwe wythnos a rhoddwyd cofnodion y rhain i AGIC yn ystod ein harolygiad.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd staff gweinyddol yn y clinig a oedd yn helpu'r rheolwr cofrestredig i reoli'r clinig o ddydd i ddydd. Roedd strwythur rheoli clir ar waith a dangoswyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cyfredol mewn perthynas â'r clinig i'w gweld yn ardal aros y clinig. Roedd y ddau yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gwelsom y polisi cwynion a oedd hefyd ar gael ar wefan y clinig. Fodd bynnag, roedd y polisi yn cyfeirio at yr arolygiaeth fel Arolygiaeth Iechyd Cymru ac mae angen ei newid i'r enw cywir sef Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwynion a chynnwys yr enw cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith a oedd yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roedd y rhain ar gael ar system yr adran Adnoddau Dynol i'r staff gael gafael arnynt.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod lefelau staffio priodol ar waith yn y clinig ar gyfer y triniaethau a gynhelir. Gwelsom fod y staff yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau cywir i ddarparu gofal o safon briodol.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod nifer y staff a oedd yn gweithio yn y clinig a'r cymysgedd sgiliau yn ddigonol o ran gallu cyflwyno'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Dywedwyd wrthym mai dim ond pan fydd digon o staff cymwysedig yn gweithio yn y clinig y byddai'r cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau. Er bod slot amser o 30 munud yn cael ei ddyrannu i'r cleifion fel rheol, roedd y staff clinigol yn teimlo'n angerddol am y gofal a ddarperir a byddent yn treulio cymaint o amser ag yr oedd ei angen ar y cleifion wrth gynnal yr ymgynghoriad.

Gwelsom fod system fonitro ar waith gan yr adran Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cynnal ac er mwyn olrhain hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ond nid oedd y cofnodion bob amser yn cael eu llunio. Gwnaethom argymhell y dylid llunio cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd staff fel mater o drefn a fyddai o fudd wrth i'r tîm ehangu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn trafod arferion da ac adborth yn ystod y cyfarfodydd wythnosol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod arfarniadau yn cael eu cynnal yn flynyddol a bod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd sgysïau goruchwylïo hefyd yn cael eu cynnal yn fwy aml a oedd yn cael eu cofnodi ar system yr adran Adnoddau Dynol.

Roedd y staff clinigol a oedd yn gweithio yn y clinig hefyd yn cael eu harfarnu fel rhan o'u proses ailddilysu fel staff gyda'r GIG. At hynny, roedd y staff clinigol hefyd yn cwblhau hyfforddiant gan y GIG ar rai pyncïau.

Gwnaethom archwilio ffeiliau'r staff newydd ar gyfer y ddau aelod anghlinigol o staff, a oedd yn cynnwys geirdaon, disgrifiadau swydd a chontractau. Roedd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd hyfforddiant y staff yn cael ei reoli ar y system Adnoddau Dynol hefyd. Roedd hyn yn dangos lefelau cydymffurfiaeth o 100% â hyfforddiant gorfodol. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys hyfforddiant cymorth bywyd sylfaenol, diogelu a chodi a chario.

Nododd y staff eu bod yn gallu cael gwasanaeth therapi galwedigaeth, drwy'r system Adnoddau Dynol, ar lesiant a chwnsela.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: London Women's Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: London Women's Clinic, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd y Weithdrefn Weithredu Safonol wedi cael ei hadolygu yn unol â'r dyddiad a oedd wedi'i nodi ar y ddogfen.	Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y defnydd o hebryngwyr yn cael ei hadolygu.	Ansawdd Profiad y Claf a Gofal Clinigol Diogel ac Effeithiol	Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol wedi'i diweddaru. Gweler y weithdrefn newydd yn atodedig  JDH Group Chaperone SOP.pdf	Rheolwr Cofrestredig	30 Mai 2025
2. Roedd y polisi cwynion yn nodi enw'r arolygiaeth fel Arolygiaeth lechyd Cymru yn hytrach nag Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisi cwynion a chynnwys yr enw cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru.	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	Mae'r polisi wedi cael ei ddiweddaru a'i atodi.  JDH Patient Information guide to 1	Rheolwr Cofrestredig	30 Mai 2025

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Anne Fisher

Teitl swydd: Nyrs / Rheolwr y Clinig / Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 30 Mai 2025